**Ysgol Mynydd Bychan**

**Polisi Codi Tâl**

## 1. Cyflwyniad

1.1 Mae addysg yn ystod oriau ysgol yn rhad ac am ddim. Nid ydym yn codi tâl am unrhyw weithgarwch a wneir fel rhan o'r Cwricwlwm Cenedlaethol ag eithrio gwersi cerddoriaeth unigol neu grŵp.

1.2 Yn gyffredinol mae'r ysgol yn gallu adhawlio TAW, ond nid yw hyn bob amser yn wir am weithgareddau allgyrsiol - a chaiff hyn ei adlewyrchu yng nghost ychwanegol rhai pethau.

## 2. Cyfraniadau gwirfoddol

2.1 Wrth drefnu tripiau neu ymweliadau ysgol sydd yn cyfoethogi'r cwricwlwm a phrofiad addysgol y plant, mae'r ysgol yn gwahodd rhieni i gyfrannu tuag at gost trip. Mae pob cyfraniad yn wirfoddol. Os na dderbyniwn ddigon o gyfraniadau gwirfoddol gallwn ganslo trip. Os yw trip yn cael ei gynnal gall gynnwys plant nad yw eu rhieni wedi cyfrannu ac ni fyddwn yn trin y plant hyn yn wahanol i unrhyw blant eraill. Fe fydd yr ysgol yn cynnig talu am blant sydd ar y gofrestr prydiau am ddim i fynd ar yr ymweliad addysgiadol

2.2 Os yw rhiant eisiau i'w plentyn gymryd rhan mewn trip neu ddigwyddiad ysgol sydd o fewn cwmpas y Cwricwlwm Cenedlaethol, ond yn amharod neu'n methu gwneud cyfraniad gwirfoddol, yr ydym yn caniatáu i'r plentyn gymryd rhan lawn yn y trip neu'r gweithgarwch (ac eithrio gweithgareddau preswyl).

Mewn achosion o'r fath byddem yn gofyn i'r rhieni hysbysu'r ysgol ar y cyfle cynharaf posibl er mwyn rhoi amser i chwilio am gyllid o ffynhonnell arall. Weithiau mae'r ysgol yn talu costau ychwanegol er mwyn cefnogi'r ymweliad. Efallai y cynhelir gweithgareddau codi arian hefyd neu efallai y gofynnir i'r GRhA am arian. Mae gan rieni hawl i wybod sut y caiff pob trip ei gyllido. Mae'r ysgol yn rhoi'r wybodaeth hon pan ofynnir am hynny. Mater i'r Pennaeth yw'r holl benderfyniadau uchod.

2.3 Mae'r canlynol yn rhestr o weithgareddau ychwanegol a drefnir gan yr ysgol, sydd yn galw am gyfraniadau gwirfoddol gan rieni. Gelwir y gweithgareddau hyn yn 'ychwanegiadau dewisol'. Nid yw'r rhestr yn gyflawn:

* ymweliadau i amgueddfeydd, theatrau, safleoedd hanesyddol a.y.y.b.

* gweithgareddau chwaraeon gyda chostau cludiant

* gweithgareddau antur awyr agored

* digwyddiadau cerddorol

* ymweliad grwpiau drama i’r ysgol

2.4 Byddwn yn hysbysu'r rhieni ar y cyfle cynharaf posibl ynghylch gweithgareddau lle mae cyfraniadau gwirfoddol yn angenrheidiol

2.5 Efallai y gofynnir i rieni ddarparu rhai eitemau neilltuol fel bod eu plant yn gallu cymryd rhan mewn gweithgareddau neilltuol.

2.6 Fel rheol mae ffyrdd o rannu taliadau dros gyfnod o amser, mae’r ysgol yn darparu

carden cynilo i bob rhiant ar gyfer hyn.

3. **Ymweliadau Preswyl**

3.1 Mae'r ysgol yn trefnu ymweliadau preswyl yn ystod amser ysgol. neu'n bennaf yn ystod amser ysgol, er mwyn darparu addysg sydd yn uniongyrchol berthynol i'r Cwricwlwm Cenedlaethol.

Byddwn yn codi tâl am gostau llety, bwyd ac arbenigedd y staff sy’n hyfforddi’r plant (lle bo’n

briodol). Mae costau teithio ac ymweliadau eraill yn cael eu trin dan gyfraniadau gwirfoddol.

4**. Gwersi Cerddoriaeth**

4.1 Mae pob plentyn yn astudio cerddoriaeth fel rhan o gwricwlwm arferol yr ysgol. Nid ydym yn codi tâl am hyn.

4.2 Codir tâl am hyfforddiant cerddoriaeth unigol neu grŵp os nad yw hyn yn rhan o'r Cwricwlwm Cenedlaethol. Mae'r athrawon cerddoriaeth deithiol yn rhoi gwersi i unigolion neu i grwpiau bach. Byddwn yn codi tâl am y gwersi hyn. Mae’r ysgol yn talu hanner costiau gwersi cerddoriaeth i’r plant sydd ar y gofrestr prydiau am ddim.(PDG). Byddwn yn rhoi gwybodaeth i rieni am hyfforddiant cerddoriaeth ychwanegol ar ddechrau pob blwyddyn academaidd.

5. **Nofio**

5.1 Mae'r ysgol yn trefnu gwersi nofio i bob plentynym Ml 3. Bydd y rhain yn digwydd yn ystod oriau ysgol ac maent yn rhan o'r Cwricwlwm Cenedlaethol. Ni fyddwn yn codi tâl am y

gweithgaredd hwn. Byddwn yn hysbysu rhieni pryd y caiff y gwersi hyn eu cynnal a gofynnwn i rieni am eu caniatâd ysgrifenedig er mwyn i'w plant gymryd rhan mewn

gwersi nofio.

6. **Gweithgareddau allan o oriau ysgol**

6.1 Cynnigir weithgareddau ychwanegol gan yr ysgol fel Pel Droed, Pel Rwyd, Clwb Celf, Clwb Cyfnod Sylfaen, Clwb Rygbi. Y staff sydd yn rhedeg ac yn trefnu'r sesiynau hyn - weithiau gyda help pobl o'r tu allan i'r ysgol. Ni fyddwn yn codi tâl am y gweithgareddau yma. Cynhelir Clwb Drama gan Menter Caerdydd yn wythnosol, ni godir tâl am y weithgaredd yma. Cynhelir clwb Dawns gan gwmni Dance Fit . Mae'r Cwmni yn codi tâl am y clwb yma ac yn llythyru y rhieni gyda gwyboadaeth am y clwb a'r costiau.

6.2 Gall rhai gweithgareddau ddigwydd ar adegau sydd yn digwydd cyd-daro gyda chychwyn neu ddiwedd y diwrnod ysgol ac mae gan y Pennaeth yr hawl i benderfynu a ddylid codi tâl amdanynt ai peidio.

6.3 O dro i dro gellir cynnal cyngherddau gydag elfen o godi arian ynghlwm wrthynt. Mater i'r Pennaeth yw penderfynu a ddylid codi tâl am ddigwyddiad o'r fath.

7. **Codi Tâl (yn gyffredinol)**

7.1 Caiff pob tâl am unrhyw weithgarwch ei gyfrifo'n unigol yn erbyn y gweithgarwch a'r cyllid angenrheidiol. Bydd y tâl yn cynnwys costau cludiant, prydau bwyd, amser staff, yswiriant, cyflenwi a gwasanaeth yn berthynol i'r gweithgarwch.

7.2 Gall tâl gynnwys lwfans am gost staff ond dim ond lle mae hyn ar wahân i'w rhwymedigaethau addysgu.

7.3 Mae incwm ac arian codi tâl yr ysgol yn rhan o weithdrefnau archwilio'r AALl i sicrhau cywirdeb ac atebolrwydd

7.4 Mater i'r Pennaeth yw penderfynu ar gymorth ariannol i ddisgyblion unigol

7.5 Bydd yr ysgol yn codi tâl am unrhyw arholiadau allanol, yn cynnwys unrhyw arholiad y mae'r disgybl wedi methu â'I gwblhau am unrhyw reswm.

7.6 Bydd yr ysgol yn codi tâl am gyhoeddiadau yn unol â'r drefn a nodir yn y ddogfen Trefn ar gyfer Cyhoeddiadau yn unol â gofynion y Ddeddf Rhyddhau Gwybodaeth 2000.

7.7 Mae unrhyw gyfeiriad uchod at 'Y Pennaeth' i gynnwys y Dirprwy Bennaeth ar adegau ac mewn amgylchiadau sydd yn ei gwneud yn ofynnol i'r person hwnnw gymryd drosodd rôl a chyfrifoldebau'r Pennaeth.

**Ysgol Mynydd Bychan**

**<u>Charging Policy</u>**

**1 Introduction**

1.1 All education during school hours is free. We do not charge for any activity undertaken as part of the National Curriculum with the exception of individual or group music tuition.

1.2 Generally, the school is able to reclaim VAT, but this is not always so for extracurricular activities – which is then reflected in the extra cost of certain things.

**2 Voluntary contributions**

2.1 When organising school trips or visits which enrich the curriculum and educational experience of the children, the school invites parents to contribute to the cost of the trip. All contributions are voluntary. If we do not receive sufficient voluntary contributions, we may cancel a trip. If a trip goes ahead, it may include children whose parents have not paid any contribution. We do not treat these children differently from any others. The school will pay for children on the Free Schools Meal register to go on an educational trip.

2.2 If a parent wishes their child to take part in a school trip or event, but is unwilling or unable to make a voluntary contribution, we do allow the child to participate fully in the trip or activity (with the exception of residential activities). In such cases we would ask parents to inform the school at the earliest opportunity so as to allow time to attempt to access alternative funding. Sometimes the school pays additional costs in order to support

the visit. Additionally, there may be extra fund raising activities or the PTA may be approached for funding. Parents have a right to know how each trip is funded. The school

provides thisinformation on request. All the above decisions will be at the discretion of the Headteacher.

2.3 The following is a list of additional activities organised by the school, which require voluntary contributions from parents. These activities are known as 'optional extras'. This list is not exhaustive:

- visits to museums, theatres, historic sites, etc.
- sporting activities which require transport expenses;
- outdoor adventure activities;
- musical or cultural events.
- a play / show by a visiting drama company

2.4 For any activity where voluntary funding will be necessary, we will inform parents at the earliest opportunity.

2.5 Parents may also be requested to supply certain items for their child to undertake certain activities.

2.6 There are usually ways to spread payments over a period of time. The school provides

all parents with a savings card.

3 **Residential visits**

3.1 The school organises a residential visit in school time, or mainly school time, which is to provide education directly related to the National Curriculum. We do make a charge to cover the costs of board, lodging and the expertise of instructors at certain venues e.g. outdoor activity centres. Travel and other visit costs are treated as under Voluntary Contributions. The school offers to pay for pupils on the free school meals register. (PDG)

**4 Music tuition**

4.1 All children study music as part of the normal school curriculum. We do not charge for this.

4.2 There is a charge for individual or group music tuition if this is not part of the National Curriculum. The peripatetic music teachers teach individual or small group lessons. We make a charge for these lessons. The school offers to pay half of the music tuition fees for those pupils on the free school meals register. We give parents information about additional music tuition at the start of each academic year.

**5 Swimming**

5.1 The school organises swimming lessons for all pupils in Year 3 yearly. These take place in school time and are part of the National Curriculum. We make no charge for this activity. We inform parents when these lessons are to take place, and we ask parents for their written permission for their child to take part in swimming lessons.

**6 Out-of-hours Activities**

6.1 The school may, from time to time, offer additional activities such as football, netball, rugby, art and Foundation Phase Clubs. Staff run and organise these sessions – sometimes with the help of people from outside the school. We make no charge for these activities. A drama club is held weekly and is run by Menter Caerdydd. There is no charge for this club.

A dance club is held weekly which is run by Dance Fit. They charge a fee and inform parents by letter.

6.2 Some activities may take place at times that overlap the beginning or end of the school day, and the Headteacher has the right to decide whether they should be charged or not.

6.3 From time to time there may be certain events that are considered to have an element of fund raising involved, such as a concert. Any charge levied for such an event would be entirely at the discretion of the Headteacher.

7 **Charging (general)**

7.1 All charges levied against any activity will be calculated individually against the activity and the funding required. The charge will include transport costs, meals, staff time, insurance, supplies and services related to the activity.

7.2 Charges may include an allowance for the cost of staff, but only where this is separate from their teaching obligations.

7.3 The school's income and charges form part of the auditing procedures of the LEA to ensure probity and accountability.

7.4 All decisions relating to financial help for individual pupils are at the discretion of the Headteacher.

7.5 The school will charge for any external examinations, including any that the pupil has failed to complete for any reason.

7.6 The school will charge for copies of publications or documents as detailed in its Publications Scheme, and as required under the Freedom of Information Act 2000.

7.6 Any reference made above to “the Headteacher” is to include the Deputy Head at such times and in such circumstances as require that person to assume the role and responsibilities of the Headteacher.